

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022 ac rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lesley Griffiths AS**

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

**7 Rhagfyr 2022**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau”) yn diwygio Erthygl 6 o Benderfyniad y Cyngor 2003/17 dyddiedig 16 Rhagfyr 2002 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy’n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd. Mae’r Rheoliadau’n estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hwn. Mae wedi cael ei estyn am 7 mlynedd a bydd bellach yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

- 2.1. Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Mae’r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y pŵer a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 (“y DAHP”) (fel sydd wedi ei glosio gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (“y DUEY”).
- 3.2. Mân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yw Penderfyniad 2003/17, fel y’i diffinnir gan adran 7 o’r DUEY. Ymgorfforwyd y Penderfyniad yng nghyfraith y Deyrnas Unedig gan adran 3 o’r DUEY. Mae paragraff 5(2) o Atodlen 8 i’r DUEY yn darparu y gellir addasu mân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir gan bwerau presennol i ddiwygio is-ddeddfwriaeth a ddaeth i rym cyn y DUEY, os nad yw’r pŵer hwnnw’n caniatáu diddymu neu ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- 3.3. Mae adran 16 o’r DAHP yn bŵer eang. Mae adran 16(1A) yn darparu: *“Seeds regulations may further make provision for regulating the marketing, or the importation or exportation, of seeds or any related activities.”* Darllenir adran 16 fel un sy’n gallu addasu mân gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.
- 3.4. Mae offeryn statudol a wneir o dan adran 16 o’r DAHP yn dilyn y weithdrefn negyddol, fel y’i nodir yn adran 16(6) o’r DAHP. Mae paragraff 6 o Atodlen 8 i’r DUEY yn datgan bod is-ddeddfwriaeth a wneir yn rhinwedd paragraff 5(2) o’r DUEY yn ddarostyngedig i’r un weithdrefn ag y byddai’n gymwys i’r ddeddfwriaeth honno o dan y pŵer presennol, h.y. adran 16(1A) o’r DAHP. O’r herwydd, mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1. Mae'r Rheoliadau'n estyn Penderfyniad Cyngor yr UE a Ddargedwir 2003/17/EC am saith mlynedd, fel y daw i ben ar 31 Rhagfyr 2029.
- 4.2. Ar gyfer y rhan fwyaf o hadau a deunyddiau lluosogi eraill a gynhyrchir y tu allan i'r DU ac sydd i gael eu marchnata ym Mhrydain Fawr, mae angen cydnabod bod systemau archwiliadau maes, cynhyrchu ac ardystio hadau yn y wlad lle y cynhyrchwyd yr hadau yn cyfateb i'r rheini ym Mhrydain.
- 4.3. Ar gyfer rhai gwledydd penodedig, rhoddir y cywerthedd hwn gan Benderfyniad Cyngor yr UE 2003/17/EC. Mae Penderfyniad y Cyngor yn cwmpasu pymtheg gwlad, gan gynnwys yr Ariannin, Awstralia, Canada, Israel, Seland Newydd ac UDA. Bydd Penderfyniad y Cyngor, fel y mae'n gymwys i Brydain, yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Er mwyn sicrhau y gall hadau cymwys a gynhyrchir yn y gwledydd penodedig barhau i gael eu marchnata ym Mhrydain, mae angen estyn y penderfyniad hwn. Rhaid gwneud hyn drwy ddeddfwriaeth.
- 4.4. Mae estyn Penderfyniad y Cyngor yn sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y fasnach bresennol rhwng Prydain a'r gwledydd y mae'n rhoi cywerthedd iddynt. Mae hefyd yn sicrhau y gall tyfwyr a chyflenwyr barhau i ddod o hyd i hadau a deunyddiau lluosogi sy'n bodloni'r ansawdd a'r safonau yr ydym yn eu disgwyl gan ein partneriaid masnachu.
- 4.5. Ni all Prydain Fawr gynhyrchu lefelau rhai hadau amaethyddol neu ddeunyddiau lluosogi planhigion y mae eu hangen i dyfu bwyd a bwydo cnydau ar gyfer pobl a da byw. Rydym yn ddibynnol ar fewnforio hadau a deunyddiau lluosogi planhigion o wledydd eraill. Byddai methu ag estyn Penderfyniad y Cyngor yn lleihau maint y farchnad ryngwladol y gall tyfwyr a chyflenwyr Cymru gael gafael ar hadau ohoni. Gallai hyn gyfyngu ar y dewis o hadau a fyddai gan dyfwyr ac o bosib y lefelau y gallent eu mewnforio. Gallai hyn orfodi tyfwyr i fewnforio amrywogaethau llai ffafriol sy'n gallu golygu llai o gnydau a / neu ymwrthedd i glefydau. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at sefyllfa lle nad yw tyfwyr yn gallu cynhyrchu digon o gnydau bwyd i bobl a da byw neu lle mae llai o ddewis i'r defnyddiwr terfynol.
- 4.6. Mae Penderfyniad y Cyngor yn cael ei estyn am 7 mlynedd. Bydd estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hefyd yn gyfle i adolygiad polisi ledled Prydain Fawr o'r broses gywerthedd sydd i'w chynnal i ystyried cyplysu â darpariaethau yn Rheoliadau lechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Mae rheoliad 26 o Ran 5 o Reoliadau 2020 yn darparu ar gyfer cydnabod cywerthedd deunyddiau planhigion o wledydd y tu allan i'r Ynysoedd Prydain ar sail weinyddol yn hytrach na deddfwriaethol.

## 5. Ymgynghori

- 5.1. Cynhaliwyd chwech wythnos o gyfnod ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid rhwng 1 Awst 2022 a 11 Medi 2022 ar y cynnig i estyn Penderfyniad y Cyngor. Cynhaliwyd hyn ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU. Anfonwyd llythyr at randdeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau ffermio a garddwriaeth Cymru. Cafwyd pum ymateb gan gyrff cynrychioliadol ar gyfer hawliau bridwyr planhigion, ffermwyr, y fasnach datws Brydeinig a'r fasnach hadau. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig.

## **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **6. Opsiynau**

Mae dau opsiwn wedi eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn, sef:

- A) Peidio â deddfu (gwneud dim)
- B) Deddfu (i gynnal y status quo)

### **7. Costau a manteision**

#### **Opsiwn A – peidio â deddfu**

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai Penderfyniad y Cyngor yn cael ei estyn. Byddai hyn yn golygu na fyddai Cymru'n cydnabod pymtheg gwlad y tu allan i'r UE mwyach fel un sydd â safonau cynhyrchu ac ardystio rhai hadau a deunyddiau lluosogi eraill o'i gymharu â Phrydain Fawr. Y gwledydd hyn yw'r Ariannin, Awstralia, Brasil, Canada, Chile, Israel, Moldofa, Moroco, Seland Newydd, Serbia, Twrci, Wcráin, UDA, Wrwgwái, a De Affrica. Yna byddai tyfwyr Cymru yn cael eu gwahardd rhag mewnforio hadau yr effeithir arnynt o'r gwledydd hyn ar gyfer marchnata.

#### **Costau**

Mae peth data ar gael ar faint o hadau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio rhwng Prydain Fawr a gwledydd sy'n dod o dan Benderfyniad y Cyngor. Nid yw'r data hyn yn cael eu datguddio ymhellach, felly nid yw'n bosibl nodi gwerth y deunydd a fewnforiwyd i Gymru yn benodol. Wedi dweud hynny, mae tua 23,000 tonnell o hadau a deunyddiau lluosogi eraill yn cael eu mewnforio i Brydain bob blwyddyn o'r pymtheg gwlad hyn (cyfartaledd o ffigurau 2019-2021), sy'n werth tua £20.2m y flwyddyn.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio ag estyn cywerthedd i'r gwledydd hyn, ni fydd tyfwyr a chyflenwyr hadau Cymru yn gallu mewnforio hadau a deunyddiau lluosogi penodol yn uniongyrchol o'r gwledydd hyn. Mae hyn yn lleihau lled y farchnad y gall busnesau Cymru gael mynediad ati er mwyn cael hadau ohoni. Gall hyn olygu na allant gael mynediad at hadau am bris mor gystadleuol ag yr oeddent wedi ei wneud o'r blaen, neu o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban. Yn y pen draw, gall gostio mwy o arian iddynt i fewnforio'r hadau y mae eu hangen arnynt os na chaiff Penderfyniad y Cyngor ei estyn. Bydd hyn yn effeithio ar eu helw pan ddeuant i farchnata'r hadau neu'r cnydau a dyfir ohonynt.

Ymhellach, mae risg na fyddai busnesau Cymru yn gallu dod o hyd i lefelau'r hadau y maent yn gallu dod o hyd iddynt nawr. Gyda llai o hadau ar gael, byddai llai o gnydau'n cael eu tyfu. Gallai hyn olygu bod defnyddwyr yn wynebu llai o ddewis, prisiau uwch neu, yn y sefyllfa waethaf, mae risg i ddiogelwch bwyd Cymru os bydd y galw'n rhagori ar y cyflenwad.

Gan fod Penderfyniad y Cyngor yn cael ei estyn yn Lloegr a'r Alban, bydd tyfwyr a chyflenwyr yn yr Alban a Lloegr yn gallu mewnfario hadau a deunyddiau lluosogi eraill o'r pymtheg gwlad. Efallai y bydd tyfwyr Cymru yn gallu prynu hadau a deunyddiau lluosogi eraill o Loegr a'r Alban, ond gall hyn fod am gost uwch o'i gymharu â mewnfario'r hadau yn uniongyrchol. Os bydd gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio yng Nghymru a'r Alban a Lloegr, efallai y bydd costau uwch i dyfwyr y mae rhaid iddynt gydymffurfio â gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio.

Mae risg hefyd, wrth fethu ag estyn cywerthedd i'r gwledydd hyn, y byddant yn peidio â chydabod bod Prydain Fawr yn gywerth. Mae Prydain Fawr yn allforio hadau a deunyddiau lluosogi o werth cyfartalog o tua £12m y flwyddyn i'r gwledydd hyn. Felly mae risg i'r opsiwn hwn o niwed ariannol i gynhyrchwyr Cymru sy'n allforio hadau a deunyddiau lluosogi eraill.

### **Manteision**

Nid oes unrhyw fanteision wedi eu nodi o ran yr opsiwn hwn. Er bod cost i fewnfario hadau, mae'n angenrheidiol gan nad oes modd i Brydain Fawr gynhyrchu lefelau hadau amaethyddol penodol neu ddeunyddiau lluosogi planhigion penodol y mae eu hangen i gynhyrchu bwyd i bobl a da byw.

### **Opsiwn B – Gwneud deddfwriaeth gan estyn y penderfyniad cywerthedd**

O dan yr opsiwn hwn, byddai Penderfyniad y Cyngor yn cael ei estyn am 7 mlynedd. Byddai hyn yn golygu bod Cymru'n parhau i gydnabod pymtheg gwlad y tu allan i'r UE fel rhai sydd â safonau cywerth ar gyfer cynhyrchu ac ardystio hadau a deunyddiau lluosogi eraill. Gallai tyfwyr Cymru barhau i fewnfario hadau yn gyfreithlon o'r gwledydd hyn at ddibenion marchnata.

### **Costau**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi eu nodi ar gyfer yr opsiwn hwn. Er y byddai Cymru, yn ddelfrydol, yn hunangynhaliol wrth gynhyrchu'r hadau a'r deunyddiau lluosogi y mae eu hangen arni, nid oes modd cyflawni hyn. Felly, mae Cymru'n ddibynnol ar fewnfario'r deunyddiau hyn.

### **Manteision**

Fel y'i hamlinellir ar gyfer opsiwn A, mae Prydain Fawr yn mewnfario tua 23,000 tonn o hadau a deunyddiau lluosogi eraill bob blwyddyn o'r 15 gwlad hyn, ac mae hyn yn werth tua £20.2m y flwyddyn. Bydd parhau i alluogi mewnfario hadau fel hyn yn galluogi tyfwyr Cymru i gael mynediad at farchnad ryngwladol ehangach. Bydd y dewis mwy hwn yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu dod o hyd i hadau am brisiau cystadleuol, gan wybod bod yr hadau hynny wedi bodloni safonau cynhyrchu ac ardystio derbynol yn y wlad y'u cafwyd ohoni. Bydd hyn yn ei dro yn eu galluogi i barhau i dyfu a marchnata hadau a chnydau o ansawdd uchel. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod Cymru'n tyfu'r lefelau cnydau bwyd a bwyd anifeiliaid y mae eu hangen i fodloni gofynion pobl a da byw.

Ymhellach, gan fod Penderfyniad y Cyngor yn cael ei estyn yn Lloegr a'r Alban, mae'n golygu y bydd y dirwedd ddeddfwriaethol yn gyson ar draws Prydain Fawr. Bydd hyn yn ei gwneud yn symlach ac yn haws i fusnesau sy'n gweithredu ym Mhrydain. Mae hefyd yn sicrhau nad yw busnesau Cymru o dan anfantaes o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban.

Mae'r opsiwn hwn yn lliniaru'r risg y byddant, wrth fethu ag estyn cywerthedd i'r 15 gwlad, yn peidio â chydabod bod Prydain Fawr yn gywerth. Mae Prydain yn allforio hadau a deunyddiau lluosogi o werth cyfartalog o tua £12m y flwyddyn i'r gwledydd hyn.

### Asesiad effaith integredig

Cynhaliwyd asesiad effaith integredig ar gyfer y Rheoliadau hyn. Nid yw hyn wedi nodi unrhyw effeithiau mawr ar unrhyw sectorau. Mae asesiadau effaith mandadol wedi eu cwblhau fel a ganlyn:

### Ymgynghori

Cynhaliwyd cyfnod o chwech wythnos o ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid er mwyn casglu safbwyntiau ar y cynnig i estyn Penderfyniad y Cyngor. Cafwyd pum ymateb gan gyrrff cynrychioliadol ar gyfer hawliau bridwyr planhigion, ffermwyr, y fasnach datws Brydeinig a'r fasnach hadau. Roedd y rhain i gyd yn gefnogol i opsiwn B, er nad oedd yr un ohonynt yn rhoi data meintiol a allai lywio'r asesiad effaith hwn.

### Casgliad

Opsiwn B yw'r opsiwn a argymhellir. Mae'n cadw'r status quo, gan alluogi busnesau Cymru i barhau i fewnforio hadau a deunyddiau lluosogi o farchnadoedd rhyngwladol penodol. Nid oes unrhyw gostau wedi eu nodi ar gyfer yr opsiwn hwn. Ar y llaw arall, gall Opsiwn A arwain at gostau i fusnesau, tyfwyr a defnyddwyr Cymru, ac nid oes unrhyw fanteision wedi eu nodi ar gyfer unrhyw grwpiau yr effeithir arnynt.

## 6. Asesiad o'r Gystadleuaeth

Cynhaliwyd yr asesiad i hidlo'r gystadleuaeth fel a ganlyn:

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
<b>C1:</b> Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan unrhyw fusnes gyfran o fwy na 10% o'r farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan unrhyw fusnes gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan y tri busnes mwyaf ar y cyd gyfran o 50% o leiaf o'r	Nac ydw

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
farchnad?	
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai busnesau yn sylweddol yn fwy nag eraill?	Na fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> Ydy'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydy
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

Nid oes unrhyw bryderon am gystadleuaeth wedi eu nodi. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod holl fewnforwyr hadau a deunyddiau lluosogi eraill yn parhau i gael mynediad at y farchnad ryngwladol.

## 7. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae Penderfyniad y Cyngor yn cael ei estyn am 7 mlynedd. Bydd estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hefyd yn gyfle i adolygiad polisi ledled Prydain Fawr o'r broses gywerthedd gael ei wneud i ystyried cyplysu â darpariaethau yn Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Mae rheoliad 26 o Ran 5 o Reoliadau 2020 yn darparu ar gyfer cydnabod cywerthedd deunyddiau planhigion o wledydd y tu allan i'r Ynysoedd Prydeinig ar sail weinyddol yn hytrach na deddfwriaethol.